# DISGRIFIAD SWYDD

## Gweithiwr Cynghori - Cymru

***Ariannir gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ar gyfer Cymru***

**Cyfrifoldebau allweddol:**

Rydym ni'n chwilio'n benodol am Weithiwr Cynghori dwyieithog (Cymraeg/Saesneg) a fydd yn:

- Darparu cyngor a gwybodaeth am fudd-daliadau lles a chymorth ariannol, gwasanaethau plant, gorchmynion cyfreithiol perthnasol, ffynonellau cymorth i fagu plant a materion eraill a allai fod yn ofynnol.
- Ymateb i ymholiadau e-bost a ffôn gan gleientiaid, ac yn darparu cyngor ysgrifenedig a llafar fel sy'n briodol.
- Ymchwilio i achosion unigol, gan asesu problemau a nodi camau gweithredu posibl.
- Darparu gwybodaeth a chyngor i alluogi cleientiaid i gymryd unrhyw gamau angenrheidiol eu hunain.
- Cyfeirio cleientiaid ymlaen at ffynonellau eraill o gymorth fel sy'n berthnasol.
- Sicrhau bod gwybodaeth ar y we a thaflenni ffeithiau yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ac yn cyfeirio at ofalwyr sy'n berthnasau yng Nghymru.
- Eiriol ar ran cleient, er enghraifft trwy ysgrifennu llythyrau neu wneud galwadau ffôn.
- Dehongli ac esbonio deddfwriaeth, dogfennau swyddogol neu lythyr at gleientiaid.
- Cyflawni ceisiadau elusen ar ran cleientiaid.
- Cyfeirio cleientiaid at ffynonellau cymorth eraill, er enghraifft cyngor cyfreithiol, gwasanaethau plant, cyfryngu, neu wasanaethau cyngor a gwybodaeth eraill.
- Sicrhau ymddygiad diduedd a pharchu cyfrinachedd wrth ddelio gyda chleientiaid.
- Sicrhau'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch deddfwriaeth briodol, newidiadau i fudd-daliadau lles a pholisïau eraill perthnasol.
- Cadw cofnodion achosion cyfrinachol a systemau gweinyddol, gan gynnwys manylion am y cyngor a roddwyd a ffynonellau atgyfeirio.
- Sicrhau bod yr holl ddata yn cael ei storio'n unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).
- Cynnal systemau ar gyfer casglu adborth gan ddefnyddwyr at ddibenion monitro a gwerthuso.
- Cydweithio'n agos â Rheolwr y Gwasanaeth Cynghori (rheolwr llinell), gan fynychu cyfarfodydd cefnogi a goruchwylio rheolaidd a chyfrannu at ddull integredig o ddarparu gwasanaeth.
- Mae gofyn gweithio'n agos ar y cyd â chydweithwyr, oddi mewn i dîm y Gwasanaeth Cynghori ac ar draws Grandparents Plus, yn arbennig Rheolwr Datblygu Cymru, i gefnogi cyflwyno rhaglenni a gwasanaethau eraill trwy'r gwasanaeth cynghori ac i hybu'r gwasanaeth ymhlith cynulleidfa eang o berthnasau.

- Goruchwylio gwirfoddolwyr neu interniaid yn ôl y galw.
- Meithrin perthynas waith effeithiol gyda sefydliadau eraill yn y sector.
- Sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau diogelu yn cael eu dilyn bob amser er mwyn amddiffyn staff a defnyddwyr gwasanaeth.

**Cymalau Safonol**

- Rhaid i ddeilydd y swydd gyflawni'r cyfrifoldebau bob amser gan roi sylw dyledus i Bolisi Cyfle Cyfartal a Pholisi Diogelu Grandparents Plus.
- Rhaid i ddeilydd y swydd dderbyn cyfrifoldeb am sicrhau y cedwir at y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â Iechyd a Diogelwch yn y gweithle bob amser.
- Bydd y rôl hon yn galw am gliriad lefel uwch boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).
- Rhaid i ddeilydd y swydd barchu cyfrinachedd data sy'n cael ei storio'n electronig ac mewn ffyrdd eraill, yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data.
- Rhaid i ddeilydd y swydd gyflawni'r cyfrifoldebau gan roi sylw dyledus i amgylchedd dim smygu holl swyddfeydd Grandparents Plus.

**Sylwer – nid yw'r disgrifiad swydd hwn yn hollgynhwysol. Mae Grandparents Plus yn cadw'r hawl i ychwanegu ato neu ei ddiwygio ar unrhyw bryd, mewn cytundeb â deilydd y swydd.**

**Mae'r penodiad yn amodol ar gwblhau gwiriad DBS lefel uwch yn llwyddiannus.**

**Mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.**

**Manyleb Person**

**Hanfodol**

- Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig rhagorol yn Gymraeg a Saesneg.
- O leiaf un flwyddyn o brofiad diweddar o waith cynghori, mewn cyd-destun cynghori sector gwirfoddol, gan gynnwys cyngor ar fudd-daliadau.
- Profiad o roi cyngor dros y ffôn ac yn ysgrifenedig.
- Gwybodaeth fanwl am y system fudd-daliadau gan gynnwys y diwygiadau lles cyfredol.
- Profiad o weithio gyda phobl sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol neu ar y cyrion a'u teuluoedd.
- Dealltwriaeth brofedig o bwysigrwydd cyfrinachedd ac agwedd anfeirniadol.
- Tystiolaeth o ymwybyddiaeth o faterion diogelu ac arfer da.
- Gallu profedig i ymchwilio i wybodaeth gymhleth a'i chyfathrebu mewn modd sy'n hawdd ei ddeall.
- Gwybodaeth amlwg am ffynonellau eraill perthnasol o gyngor a gwybodaeth.

- Tystiolaeth o allu da i farnu, a gwybod pryd mae ceisio cyngor neu gyfeirio cleientiaid ymlaen at ffynonellau eraill o gyngor.
- Gallu i weithio'n hyblyg, ar y cyd ac yn effeithiol fel rhan o dîm bach.
- Gallu profedig i barhau'n ddigynnwrf o dan bwysau.
- Profiad o weithio fel ymgynghorydd yn y trydydd sector.
- Profiad o drefnu a blaenoriaethu llwyth gwaith prysur heb oruchwyliaeth fanwl.
- Dealltwriaeth glir a phrofedig o'r angen am gadw cofnodion da o achosion.
- Sgiliau rhyngbersonol ardderchog ac yn arbennig gallu i drafod yn sensitif dros y ffôn.
- Ymrwymiad i weledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd Grandparents Plus.
- Ymrwymiad gweladwy i gyfle cyfartal.
- Hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig.

**Dymunol**

- Profiad personol o ofal gan berthnasau.
- Tystysgrif Cyngor ar Bopeth mewn Gwaith Cynghori Cyffredinol neu gymhwyster cyfatebol.
- Profiad o'r sector gwirfoddol, yn arbennig gweithio mewn sefydliad bach gwirfoddol.

Rydym ni'n eithriadol o falch bod y rôl hon yn cael ei hariannu gan **Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yng Nghymru** ac y bydd yn ein helpu i fynd i'r afael â'r heriau ychwanegol mae pandemig COVID-19 wedi'u hachosi i'n gofalwyr sy'n berthnasau yng Nghymru.

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND